



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 1 Mai 2018 am 6.30yh  
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 1 May 2018 at 6.30pm  
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

**Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors** John Adams-Lewis (*yn y gadair/in the chair*), Clive Davies, Marilyn Farmer, Wyn Jones, Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Trystan Phillips, Shan Williams, a'r Clerc, Mr Wynford Jones.

## 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

**Yn absenoldeb y Maer, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Faer, y Cyng. John Adams-Lewis. Cyfeiriodd at brofedigaeth y Cyng. Elaine Evans sydd wedi colli ei mam yn ddiweddar – mae'r Cyng. Evans wedi colli dau rhiant yn ystod yr wyth mis diwethaf. Mae'r clerch wedi anfon carden o gydymdeimlad ati. Anfonwyd cyfarchion y cyngor at y Cyng. Graham Evans sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili, ac yn yr un modd mab-yng-nghyfraith y Cyng. Siân Maehrlein sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforus. Ar nodyn ysgafnach, cafwyd hanes y dadorchuddio o blac hardd nodi campau Jonathan Jones a ddaeth â chlod i'r dref dros gyfnod ei yrfa yn rasio cychod cyflym; diolchwyd i fudiad Yr Hoelion Wyth am drefnu'r digwyddiad. Llongyfarchwyd hefyd bwyllgor Dydd Sadwrn Barlys ar lwyddiant y sioe eleni eto pan welwyd miloedd o ymwelwyr yn tyrru i'r dref.**

In the absence of the Mayor, the meeting was chaired by the Deputy Mayor, Cllr John Adams-Lewis. He referred to Cllr Elaine Evans' bereavement with the passing of her mother recently – Cllr Evans has experienced the loss of both parents during the past eight months. The clerk has forwarded a card of condolences to the family. The council's best wishes were forwarded to Cllr Graham Evans who has sustained a leg injury and is recovering following surgery at Glangwili Hospital. Likewise, the son-in-law of Cllr Siân Maehrlein who has undergone surgery at Morriston Hospital. On a lighter note, the Chair mentioned the success of the unveiling of the plaque to commemorate the powerboat achievements of Jonathan Jones who brought fame and sporting publicity to the area; Yr Hoelion Wyth group was thanked for organising the event. The Barley Saturday Show committee was congratulated on another successful day when thousands of visitors were welcomed to Cardigan to enjoy the annual spectacle.

## 2. Ymddiheuriadau / Apologies:

Y Cyng. / Cllr Elaine Evans (*profedigaeth deuluol/family bereavement*), Yvonne O'Neill (*materion teuluol / family matters*), Graham Evans (*yn yr ysbyty/in hospital*), Debra Griffiths (*anhwylus/unwell*), Richard Jones (*gwaith/work commitments*).

## 3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

## 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 10 Ebrill

Confirmation of Minutes of 10 April Council Meeting.

**Tud. 1360, eitem 13 (Maes Sgrialu): Cynhelir "Jam" sgrialu yn hytrach na "Jamborï".**

Page 1360, item 13 (*Skateboard Park*): A Skateboard "Jam" will be held not "Jamboree".

**Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Shan Williams bod cofnodion cyfarfod 10 Ebrill yn gywir.**

With the above amendment, Cllr Marilyn Farmer proposed that the 10 April council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Shan Williams.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**

**Tud. 1358, eitem 11[13]: Oherwydd amgylchiadau personol, methodd y ddau gynghorydd fynychu digwyddiad y Bwrdd Iechyd ar 20 Ebrill.**

Page 1358, item 11[13]: Due to personal circumstances, the nominated councillors were unable to attend the Health Board meeting on 30 April.

**6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

**7. Cynllunio / Planning**

**8. Biliau i'w talu / Bills to be paid.**

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
1/5/18	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Ebrill / April). Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room (10, 17 & 24 Ebrill / April) Band Lydan (Mai) / Broadband (May)	A9 A9 A20	D/D 4560 4560	£250.00 (0.00) £75.00 (0.00) £20.00 (0.00)
26/4/18	Llinos Jones: Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (10/4/18)	A18	4561	£55.80 (0.00)
30/4/18	L. W. Jones: Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Ebrill / April)	A5	4562	£763.03 (0.00)
26/4/18	Menter Aberteifi: Hurio Ystafell Radley. Hire of Ystafell Radley for defibrillator training, 23/4/18	A9	4563	£24.00 (0.00)
25/4/18	Newsquest: Hysbyseb (Sefydlu'r Maer), Advert (Mayoral Installation Ceremony)	A10	4564	£103.68 (17.28)
30/4/18	Bachan Deche / Handyperson (Ebrill / April)	A19	4565	£296.00 (49.50)

**Cynigiodd y Cyng. Steffan Morgan bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Trystan Phillips.**

Cllr Steffan Morgan proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Trystan Phillips.

**Derbyniadau/Receipts:**

11/4/18	HSBC: Trosglwyddiad / Transfer of funds	£10,000.00
21/4/18	Clwb Bowls Aberteifi / Cardigan Bowling Club (Rhent/Rent)	£400.00
30/4/18	Cyngor Sir Ceredigion County Council: (Praesept / Precept) Rhandal 1(3) / Instalment 1(3)	£27,998.49
	less £1,790.66 for 2017 local election costs	= £26,207.83

**9. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.**

**(a) Y Cyng. Catrin Miles:**

- (i) Oherwydd y ddamwain i'r Cyng. Graham Evans, cytunodd y Cyng. Miles ei ddirprwyo a chynnig bod y Cyng. Shan Williams yn cael ei hethol yn Ddirprwy Faer yng nghyfarfod Seremoni Sefydlu'r Maer ar 3 Mai.
- (ii) Mae'r mur ar gei Tywysog Siarl o'r diwedd wedi ei gywiro gan y cyngor sir; cyflawnwyd hynny y dydd cyn dadorchuddio'r plac i Jonathan Jones ar fur Gwesty'r Grosvenor. Awgrymwyd y dylid trefnu grŵp ieuenctid i ailbeintio englyn Ceri Wyn Jones sydd yn harddu'r mur.
- (iii) Cyfeiriodd y Cyng. Miles at y prosiect graffiti llwyddiannus ddatgelwyd yn noson wobrwyo'r cyngor sir yn Felinfach yn ddiweddar. Byddai prosiect tebyg i hyn yn fudd mawr i wella golygfa ochr ddeheuol yr afon; bwriedir trafod hyn gyda rheolwr cwmni Jewson.
- (iv) Mae pryder ynglŷn â'r gwaith i atgyweirio to adeilad y farchnad sydd wedi ei restru gan y cyngor sir i gymryd 12 wythnos o 8 Mai ymlaen, megis dros dymor prysur yr haf. Mynegodd yr aelodau eu hanfodlonrwydd a chytunwyd anfon llythyr at yr awdurdod gan ofyn iddynt ymdrechu i gadw'r ffordd yn agored er mwyn masnach a busnes yr ardal; awgrymwyd y gellid trefnu trafndiaeth un-ffordd i fyny Rhos y Coleg.

**(b) Y Cyng. John Adams-Lewis:**

- (i) Cyfeiriodd y Cyng. Adams-Lewis at y fandaliaeth sydd yn digwydd gerllaw'r twnel atal llifogydd yn Netpwl. Bu rhaid i'r awdurdodau godi ffens uchel o amgylch er mwyn sicrhau na fydd damweiniau'n digwydd yno. Mae'r gwregys achub bywyd wedi diflannu unwaith eto o gei'r Tywysgo Siarl; cyfeiriwyd y broblem at bwyllgor Sianel Glir Afon Teifi.

**(a) Cllr Catrin Miles:**

- (i) Due to the injury suffered by Cllr Graham Evans following an accident, Cllr Miles agreed to deputize by proposing that Cllr Shan Williams be elected Deputy Mayor at the Mayor's Installation Ceremony on 3 May.
- (ii) The Prince Charles quay wall has at last been repaired just a day before the unveiling ceremony of the Jonathan Jones plaque on the Grosvenor Hotel wall. The lettering of Ceri Wyn Jones' stanza needs repainting; Cllr Miles suggested that a local youth group might be interested in undertaking the task.
- (iii) Cllr Miles referred to the successful award evening held under the auspices of the county council at Felinfach recently when young people presented their artistic work which included a graffiti project. She suggested approaching the manager of Jewson with the proposal that the unsightly south side of the river could be similarly adorned.
- (iv) Concern was expressed at the intention of the county council to proceed with the repair to the roof of the market hall which necessitates scaffolding being in place for 12 weeks from 8 May, taking the project well into the summer months. This would affect greatly the business of local tradespeople. Members registered their disdain and agreed to ask the county council to ensure that College Row would be open one-way to ease the congestion and ensuring that trading could continue.

**(b) Cllr John Adams-Lewis:**

- (i) Cllr Adams-Lewis referred to the continuing vandalism sustained at the flood alleviation tunnel in Netpool. A high fence has been installed to prevent potential injury and possible fatal accidents. The life-belt at Prince Charles quay has once again disappeared; the responsibility for its recovery/replacement remains with the Afon Teifi Fairways Committee.

**10. Gohebiaeth / Correspondence.**

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
18	CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Taliadau i Gynghorau Cymuned a Thref / Payments to Community and Town Councils: Praesept 2018-19 Rhandaliad 1(3) / Precept 2018-19 Instalment 1(3): £27,998.49</i>	<i>Talwyd y rhandal cyntaf i'r banc ar 30 Ebrill. The first instalment was paid into the bank on 30 April.</i>
19	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure: Rhos y Coleg / College Row, 8/5/18 (am 12 wythnos/for approx. 12 weeks) – Atgyweirio to adeilad y farchnad / Repair to roof of market hall.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau. Copy forwarded to members 17/4/18. Trafodwyd tan eitem 9(a)(iv). Discussed under item 9(a)(iv).</i>
20	CSC / CCC (Eifion Evans): <i>Trefniadau ar gyfer y casgliadau gwastraff dros gyfnod gwyliau mis Mai. Arrangements for the waste collections over the May Bank Holidays.</i>	<i>Mae'r posteri wedi eu harddangos ar yr hysbysfwrdd. Notices have been displayed on the notice board.</i>
21	CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Cais am gymorth ariannol 2018-19, Cynllun Grantiau Cymunedol Ceredigion, Offer Cae Chwarae Pentop. Application for financial assistance, Ceredigion Community Grant Scheme, Play equipment for Pentop Playing Field.</i>	<i>Hysbysiad bod y grant o £9,547 wedi ei gymeradwyo tuag at y prosiect, sef £19,094. Notice that a grant of £9,547 has been approved towards a project cost of £19,094. Copy forwarded to Cllr C. Miles</i>
22	CSC / CCC (Tom Delph-Janiurek): <i>Eglurhad paham na fyddai cais y cyngor am osod cyfleustra arafu'r drafndiaeth ar stad Maesglas yn llwyddiannus. Explanation as to why the council's suggestion to place speed humps on the Maesglas estate would prove to be unsuccessful.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau. Copy forwarded to members 17/4/18.</i>

23	CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Taliad cyntaf o dair o braesept 2018-19 (£29,207.83 llai £1,790.66 [costau etholiadau lleol 2017]).</i> Payment of the first of three instalments of the precept for 2018-19 (£29,207.83 less £1,790.66 [costs of 2017 local elections])	<i>Mae'r taliad wedi ei wneud yn uniongyrchol i'r banc.</i> Payment has been made by BACS on 30 April.
24	CSC / CCC (Dafydd Roberts): <i>Cydnabyddiaeth am lythyr y cyngor ynglŷn â chofrestru cŵn.</i> Acknowledgment of council's observations regarding the licensing of dogs.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 11/4/18.
25	<i>Comisiwn Ffiniau a Rheoli Democratiaeth Leol Cymru: Cydnabyddiaeth am sylwadau'r cyngor.</i> Local Democracy and Boundary Commission for Wales: Acknowledgment of council's observations	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 11/4/18.
26	Mr Ian Dennis (Groundwork Wales): <i>Gwybodaeth am gynllun Tesco i ariannu elusennau.</i> Information regarding the Tesco scheme to fund local charities.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 24/4/18.
27	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: "Trawsnewid ein Gwasanaeth Iechyd": Digwyddiadau Galw Heibio.</i> Hywel Dda University Health Board: "Our Big NHS Changes" Drop-in Events.	<i>Neuadd y Dref, Aberteifi / Guildhall, Cardigan 4/5/18, 2.00-7.00pm.</i>  <i>Mae'r posteri wedi eu harddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Posters have been displayed in the notice board.
28	Playsafety (RoSPA): <i>Gwybodaeth am archwilio'r meysydd chwarae.</i> Notification of play area inspections in June/July.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
29	<i>Cyngor Tref Aberystwyth: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i Seremoni Sefydlu'r Maer.</i> Aberystwyth Town Council: Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Mayoral Inauguration Ceremony, 11/5/18, 6.30pm at the Old College.	<i>Mae'r Maer wedi derbyn y gwahoddiad.</i> The Mayor has accepted the invitation.
30	<i>Cyngor Tref Castellnewydd Emlyn: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i Seremoni Sefydlu'r Maer.</i> Newcastle Emlyn Town Council: Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Mayoral Installation Ceremony, 16/5/18, 7.30pm, Ysgol Gyfun Emlyn.	<i>Mae'r Maer wedi derbyn y gwahoddiad.</i> The Mayor has accepted the invitation.
31	The Royal British Legion (Cardigan Branch): <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu Gwasanaeth y Lluoedd Arfog.</i> Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Armed Forces Day, 30 June, 2.30pm, St Mary's Church.	<i>Mae'r Maer wedi derbyn y gwahoddiad.</i> The Mayor has accepted the invitation.
32	<i>Ben Lake AS/MP: Posteri (Streetlink).</i> <i>Posters "Help someone sleeping rough in Wales in 4 easy steps" (Streetlink app)</i>	<i>Y posteri i'w gosod ar yr hysbysfwrdd.</i> <i>Posters to be displayed on notice board.</i>
33	<i>Cymdeithas Aberteifi Society: Cais am gymorth ariannol i gynnal a chadw App Tref Aberteifi.</i> Application for financial support to maintain the Cardigan Town App.	<i>Cytunwyd trafod y cais mewn pwyllgor yn y dyfodol.</i> It was agreed to discuss the request at a future meeting.
34	<i>Cymdeithas Aberteifi Society: Cais i osod ffurlen ymaelodi'r Gymdeithas ar safle we'r cyngor.</i> Application to post Society membership form on the council website.	<i>Cytunwyd i'r Cyng. Clive Davies osod y ffurflen ar y safle we.</i> It was agreed that Cllr Clive Davies would post the membership form on the council website.
35	<i>Theatr Felinfach: Llythyr o ddiolch a derbynneb am rodd y cyngor.</i> Letter and receipt for the council donation.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
36	<i>Cardigan Youth Information &amp; Support Services (Area 43): Llythyr o ddiolch a derbynneb am rodd y cyngor.</i> Letter and receipt for the council donation.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
37	<i>Mr Phil Evans: Gwybodaeth am osod carped newydd yn y swyddfa a diweddarau'r system larwm yn yr adeilad.</i> Information regarding replacing the office carpet and upgrading the alarm system in the building.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
38	<i>Bachan Deche: Adroddiad Ebrill.</i> Handyperson: April Report	<i>I'w drafod tan eitem 11.</i> To be discussed under item 11.

39	<i>Bro Teifi Tenants Association: Carden o ddiolch a derbynneb am rodd y cyngor. Card and receipt for the council donation.</i>	<i>Nodwyd. Noted.</i>
----	---	---------------------------

**Dafydd Roberts:** *Rheolwr Gwasanaethau Defnyddwyr / Consumer Services Manager*  
**Eifion Evans:** *Prif Weithredwr / Chief Executive*  
**Elin Jones:** *Swyddog Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Officer*  
**Stephen Johnson:** *Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol / Head of Financial Service*  
**Tom Delph-Janiurek:** *Rheolwr/Beiriannydd Rheoli Trafnidiaeth / Senior Engineer Traffic Management*

**11. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.**  
 Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.  
**Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 17 Ebrill.**  
 Confirmation of 17 April Sub-committee Minutes.

**Tud. 1361 (Cyflwyniad gan gynrychiolydd Cyngor Iechyd Cymunedol):** Dylai enw'r cyflwynydd ddarllen "Mr Sam Dentten" ac nid "Mr Sam Denton".

**Tud. 1363 (Er gwybdaeth):** Dylai amser gwasanaeth Dydd y Lluoedd Arfog ddarllen "2.30" ac nid "2.00".

Page 1361 (*Presentation by Community Health Council representative*): The name of the presenter should read "Mr Sam Dentten" not "Mr Sam Denton".

Page 1363 (*For information*): The time of the Armed Forces Day service should read "2.30" and not "2.00".

**Gyda'r cywiriadau uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Shan Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer bod cofnodion 17 Ebrill yn gywir.**

With the above amendments, Cllr Shan Williams proposed that the 17 April minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Marilyn Farmer.

**Materion yn codi / Matters arising**

**Tud. 1362 (tâl am broflen o'r mapiau):** Wedi i'r Cyng. Clive Davies gysylltu â'r cwmni, penderfynwyd ganddynt ddiddymu costau'r broflen.

Page 1362 (*charge for proofing of maps*): Following Cllr Clive Davies' intervention, the company has agreed to cancel the bill.

**Tud. 1362 (Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed):** Yn dilyn cyfarfod o'r gweithgor, cytunwyd bod cyngor Mr John Dyer yn cael ei dderbyn fel a nodir isod.

Page 1362 (*King George 5<sup>th</sup> Playing Field*): Following a meeting of the working group, Mr John Dyer's advice was agreed upon as follows:

"Cardigan Rugby Club: (i) That the term of the lease commences on agreement and completion of negotiations rather than be back-dated. (ii) The advice of the Charity Commission should be observed noting that the Security of Tenure Provision of the Landlord and Tenant Act 1954 should be excluded so as to avoid the tenant being granted what is effectively a perpetually renewable lease".

The clerk was instructed to inform Mr Dyer of the council's decision.

**Tud. 1362 (Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed):** Mae'r cyngor yn derbyn yr awgrym mewn egwyddor i gefnogi'r ymdrechion i ffurfio cae chwarae 4G yn y dref.

Page 1362 (*King George 5<sup>th</sup> Playing Field*): The council, in principle, supports the recommendation for developing a 4G playing surface in Cardigan.

**Menter Aberteifi:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Marilyn Farmer. Esboniodd bod 36 o stondinau wedi eu harchebu i fynychu'r Wyl Afon a Bwyd ym mis Awst. Mae'r swyddogion yn apelio am stiwardiaid i wasanaethu ar y dydd. I ateb cais y cyngor, bydd rhaid cysylltu gyda'r cwmni er mwyn gosod neges dwyieithog o fewn peirianwaith y lifft yn Neuadd y Dref.

**Menter Aberteifi:** Cllr Marilyn Farmer reported on the latest meeting of the board. 36 stall holders had reserved places for the River & Food Festival which is to be held in August. An appeal was made for volunteers to assist on the day and to help with plastic-free disposal. In response to the council query, the company would have to be contacted to enable the lift message at the Guildhall to be in bilingual form.

**12. Personél / Personnel.**

**13. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**

Any Other Business at the Mayor's discretion.

(a) **Y Cyng. / Cllr Yvonne O'Neill**

(i) **Ceubyllau ar Stryd yr Orsaf.**

Potholes in Station Road (*In the absence of Cllr O'Neill, this item was deferred to a later date*)

(b) **Y Cyng. / Clive Davies**

(i) **Diweddariad ar weinyddiaeth y Maes Sgrialu yn cynnwys cytundeb y brydles (Neil Hinchliffe), prisiau am y gwaith o'i adnewyddu a'r cais am grant (Cathryn Morgan).**

Update on the administrative work on the Skateboard Park including the lease contract (Neil Hinchliffe), the quotations for the work and the application for grant aid (Cathryn Morgan).

**Cafwyd braslun gan y Cyng. Davies am newid rhan o'r brydles i gynnwys darn ychwanegol o dir.**

Cllr Davies gave the background regarding the variation to the lease between Ceredigion County Council and Cardigan Town Council with regard to Maes Radley (Skateboard Park). A section of land has been added to enable a project led by Small World Theatre to add a "rainbow seat" to the park. During an on-going consultation with the skateboard park users, it has emerged that a small additional area would greatly enhance the quality of the skateboarding experience. The plan is to include a small section of "street scene" in this corner to include a concrete bench and a small rail.

It was proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Wyn Jones that the council supports the inclusion of the stated piece of land. All members were in agreement.

(c) **Y Cyng. / Richard Jones**

(i) **"Artistic Think Tank" (In the absence of Cllr Jones, this item was deferred to a later date).**

(d) **Y Clerc / The Clerk**

(i) **Paratodau am y ddeddfwriaeth newydd ynglŷn â Diogelu Data.**

**Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis bod hyfforddiant CLIC i'w gynnal ym Mhenmorfa ar 22 Mai ac y bydd gwybodaeth am y ddeddfwriaeth yno.**

Preparations for the General Data Protection Regulation (GDPR) legislation which will apply from 25 May.

Cllr Adams-Lewis stated that a training session for CLIC would be held on 22 May and that information regarding GDPR would be available at the event.

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.33yh***

*There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.33pm.*

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....